



Cofnodion Cyfarfod Rhithiol y Pwyllgor Gwaith brynhawn Iau y 20^{fed} o Awst 2020 2:00 y.p.

Yn Bresennol

Iona Evans	Cadeirydd
Hywel Madog Jones	Is-gadeirydd
Margaret Roberts	Trysorydd
Gareth W Jones	Ysgrifennydd

Duncan Brown, Eirian Davies, John Griffith, Dafydd Horan, Carys Parry, Gwyn Roberts, Iwan Roberts, Alan Williams a Jackie Willmington (Ysgrifennydd Cofnodion).

1. GAIR O GROESO GAN Y CADEIRYDD

Esboniodd yr Is-gadeirydd i'r Cadeirydd ofyn iddo gadeirio'r cyfarfod oherwydd diffygion ei chysylltiad band eang. Diolchodd i'r aelodau o'r Pwyllgor Gwaith (PG) a oedd wedi cysylltu drwy Zoom.

2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Dafydd Lewis ac Elizabeth Roberts. Methodd Rob Evans a Tudur Pritchard ymuno â'r cyfarfod oherwydd anawsterau technegol.

3. DERBYN COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR GWAITH A GYNHALIWDYD AR Y 20^{fed} O Chwefror 2020

Tynnwyd sylw nad oedd yn bosibl i'r PG ymgynnull ym mis Mai oherwydd COVID-19 a chytunwyd i drafod materion brys drwy e-bost. Cynigiodd Alan Williams ac eiliodd Gwyn Roberts dderbyn cofnodion mis Chwefror yn gofnod cywir.

Cytunwyd i ohirio trafod materion yn codi o'r cofnodion.

4. ASESAD RISG COVID-19 AR GYFER TEITHIAU MAES

Diolchodd yr Is-gadeirydd i aelodau'r PG am eu sylwadau ar yr Asesiad Risg a dogfennau eraill a drafodwyd drwy e-bost yn ystod y wythnosau cyn y cyfarfod gan nodi ei fod wedi cynnwys y rhan fwyaf o'r awgrymiadau yn y fersiwn diweddarach.

Cytunwyd yn ddiwrthwynebiad y dylai'r Gymdeithas dechrau cynnig teithiau maes ar ddechrau mis Medi.

Cytunwyd na fyddai'n bosibl i reoli 30 cerddwr, yr uchafswm a ganiatawyd gan reolau Llywodraeth Cymru. Penderfynwyd peidio â derbyn mwy nag 20, gan ganiatáu i Drefnyddion neu Arweinwyr gytuno ar nifer llai pe gwelwyd yn ddymunol.

Rhoddodd Duncan wybod y byddai Prosiect Llên Natur yn cynnal noson gwylio ystlumod ar 28 Awst. Mynegodd Eirian y bwriad o gysylltu ag aelodau yn ei ardal yn fuan er mwyn asesu'u hawydd i ailymuno â gweithgareddau grŵp.

Trafodwyd sut i gofrestru cerddwyr ymlaen llaw wrth osgoi rhoi gormod o faich ar Drefnyddion ac Arweinwyr. Esboniodd yr Is-gadeirydd na dderbynnid ymwelwyr a bod rhaid derbyn aelodau ar sail "y cyntaf i'r felin...". Cytunwyd cofrestru drwy alwad ffôn yn unig er mwyn i drefn y ceisiadau fod yn amlwg ac er mwyn i aelodau wybod ar unwaith a oedd lle ar gael ar y daith. Cytunwyd y byddai'r Arweinyddion fel arfer yn derbyn ceisiadau ar gyfer eu teithiau eu hunain ond gallai Trefnydd gytuno i weithredu dros Arweinydd yn ôl y galw. Byddai disgrifiad y daith yn cynnwys manylion cyswllt y Trefnydd os nad yr Arweinydd fyddai'n cofrestru'r cerddwyr. Nodwyd y dylid osgoi galwadau ffôn dianghenraid drwy ddangos ar y wefan pan fydd taith yn llawn.

Pwysleisiwyd bod Llywodraeth Cymru yn debyg o newid cyngor a rheolau a byddai rhaid cadw llygad ar gyhoeddiadau a dangos newidiadau perthnasol yn "Newyddion Brys" ar y wefan ac ar y dudalen Weplyfr.

Adroddodd yr Is-gadeirydd i aelodau o'r PG anghytuno ynglŷn â'r manylion cyswllt i'w cofnodi ar y gofrestr. Cynigiodd gofnodi enw, côd post a'r rhif ffôn gorau i gysylltu â'r aelod petai angen olrhain cysylltiadau achos o Covid-19. Cytunwyd yn ddiwrthwynebiad.

Wrth ymateb i gwestiwn gan Alan, esboniodd yr Is-gadeirydd bod y cyfarwyddyd ynglŷn ag osgoi defnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn berthnasol yn ystod gweithgareddau yn unig. Dywedodd fod y modd o gyrraedd y man cychwyn yn fater i'r unigolyn.

5. Y CYLCHLYTHYR A'R NATURIAETHWR

Amlinellodd y Golygydd anawsterau llunio rhifyn diweddarach y Cylchlythyr tra bod y Lolfa ar gau ac ni ellid cysylltu â'r dylunydd. Diolchodd i'r holl gyfranwyr am lenwi'r bwch a grëwyd gan absenoldeb disgrifiadau teithiau maes. Llongyfarchwyd y ddau Olygydd gan yr Is-gadeirydd am gynhyrchu rhifynnau diddorol er gwaethaf yr amgylchiadau anodd.

Esboniodd Gwyn ei fod wedi trafod gydag Elgan Griffiths y posibilrwydd o uno'r Naturiaethwr â'r Cylchlythyr. Credwyd y byddai'n bosibl i leihau costau cynhyrchu a phostio. Tynnodd yr Ysgrifennydd Aelodaeth sylw mai maint yr amlen yn hytrach na phwysau sydd yn allweddol o ran costau postio. Pwysleisiodd Gwyn nad oedd y ddau Olygydd yn dymuno ymgyrchu o blaid nac yn erbyn uno'r cylchgronau.

Cytunwyd y byddai Gwyn y gofyn am amcangyfrif o gostau dylunio rhifyn enghreifftiol electronig o Naturiaethwr a Chylchlythyr cyfun a fyddai'n hwyluso trafodaeth gyda'r aelodau (**pwynt gweithredu**). Cytunodd Iwan i geisio gwybodaeth ynglŷn â'r rheswm dros wahanu'r ddau gylchgrawn yn y 1990au (**pwynt gweithredu**).

6. GOBLYGIADAU CANSLO CYFARFOD BLYNYDDOL 2020

i) Y fantolen

Cyfeiriodd y Trysorydd at y fantolen ddrafft am flwyddyn ariannol y Gymdeithas 2019-2020. Dangoswyd incwm o £25,199 yn cynnwys £13,581 o'r tâl aelodaeth. Bu £37,569 mewn llaw ar 30 Mehefin 2020. Cytunwyd i gylchredeg y fersiwn terfynol ar ôl yr archwiliad er na ddisgwyliid newidiadau sylweddol (**pwynt gweithredu**)

Cyflwynwyd datganiad o sefyllfa ariannol y Gymdeithas ar 17 Awst a ddangosodd incwm o £14,811.64 a gwariant o £7,919.93 ers 20.02.2020 gyda £47,812.26 mewn llaw. Gofynnodd yr Ysgrifennydd Aelodaeth am yr eitem "Bathodynau Clwb y Llygaid Bach". Esboniodd Duncan fod Prosiect Llên Natur yn gweithredu cynllun tebyg i "I Spy" sydd yn cynnig bathodynau i blant am gofnodion byd natur.

Dywedodd yr Ysgrifennydd Aelodaeth iddo dderbyn nifer o sieciau o ganlyniad i'r eitem yn y Cylchlythyr yn tynnu sylw bod y Tâl Aelodaeth yn ddyledus. Ychwanegodd y byddai'r Gymdeithas yn colli aelodau oherwydd na chynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol.

Cytunodd yr Ysgrifennydd ysgrifennu llythyr i'w gyflwyno i'r Comisiwn Elusennau gyda'r cyfrifon yn esbonio nad yw'r Gymdeithas yn bwriadu cynnal Cyfarfod Cyffredinol hyd fis Hydref 2021. Dywedodd y Trysorydd fod un aelod yn unig wedi canslo debyd uniongyrchol. Pwysleisiodd yr Is-gadeirydd werth y Cylchlythyr a'r Naturiaethwr yn ystod cyfnod pan na ellid cynnal teithiau maes.

Diolchodd yr Is-gadeirydd i'r Trysorydd am ei gwaith.

ii) **Swyddogion y Gymdeithas**

Gofynnodd yr Is-gadeirydd i aelodau o'r PG, ac eithrio'r Ysgrifennydd Aelodaeth, gadarnhau eu bod yn fodlon aros yn eu swyddi tan fis Hydref 2021. Ni fynegwyd amharodrwydd.

Awgrymodd Alan Williams ohirio trosglwyddo swydd yr Ysgrifennydd Aelodaeth i Rob Evans am tua dau fis er mwyn iddo brosesu sieciau am dâl aelodaeth 2020/2021. Cytunwyd i ohirio cyfethol Rob Evans tan gyfarfod mis Tachwedd.

iii) **Y Tâl Aelodaeth**

Tynnwyd sylw bod mwyafrif o ymatebwyr o blaid cadw'r Tâl Aelodaeth presennol yn 2021/2022 pan drafodwyd goblygiadau canslo'r Cyfarfod Blynyddol drwy e-bost ym mis Mai. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Aelodaeth nad oedd rheswm i'w godi. Cynigiodd yr Is-gadeirydd gadw tâl o £20 i unigolion a £27 i deuluoedd. Cytunwyd yn ddiwrthwynebiad. Ychwanegodd yr Ysgrifennydd nad oedd neb wedi cysylltu hyd yn hyn i wrthwynebu cynigion y PG ynglŷn â'r Cyfarfod Blynyddol a esboniwyd yn y Cylchlythyr.

7. **UNRHYW FATER ARALL**

- (i) Awgrymodd Gwyn y dylid trefnu defnyddio cyfeiriadau e-bost o eiddo'r Gymdeithas, er enghraifft ysgrifennydd@edwardllwyd. Cytunodd yr Is-gadeirydd ymchwilio i'r mater (**pwyt gweithredu**).
- (ii) Tynnodd Duncan sylw mai "llennatur.cymru" yw cyfeiriad gwefan Llên Natur. Dangoswyd yr hen gyfeiriad yn y Cylchlythyr.
- (iii) Mynegodd yr Is-gadeirydd y farn bod cyfarfod rhithiol cyntaf y PG wedi bod yn foddhaol i'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr a gofynnodd a ddylid cynnal cyfarfodydd i ddod yn yr un modd. Ni ragwelwyd y byddai'r rheolau ynglŷn â COVID-19 yn caniatáu i'r PG gwrdd dan do yn y dyfodol agos. Dywedodd Duncan y dylid osgoi teithio am resymau amgylcheddol. Tynnwyd sylw hefyd bod aelodau wedi mynegi pryder yn y gorffennol ynglŷn â theithio yn ystod y gaeaf. Penderfynwyd cynnal cyfarfod rhithiol ym mis Tachwedd. Dywedwyd y byddai'n fanteisiol weithiau i amserlenni'r PM a'r PG fod yn wahanol. Nodwyd hefyd y gellid cynnal cyfarfod rhithiol i drafod unrhyw fater brys.

Penderfynwyd y dylai'r Gymdeithas dalu am danysgrifiad Zoom gyda chyfleusterau gwell na'r rhai a gynigir gan y cyfrif cyffredin sydd ar gael am ddim. **(Pwynt gweithredu)**

- (iv) Gofynnodd y Trysorydd a oedd cynnydd ynglŷn â dewis paneli arddangos. Esboniodd yr Ysgrifennydd Aelodaeth bod COVID-19 wedi digwydd cyn i ystafelloedd arddangos y cwmni dan sylw ail-agor ar ôl y gaeaf.
- (v) Mynegodd Eirian ei ddiolchgarwch am ymdrechion pawb tuag ailddechrau gweithgareddau yn ôl rheolau COVID-19. Diolchodd hefyd i Gwyn am gynhyrchu Cylchlythyr dan amgylchiadau hynod o anodd.

8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

19^{eg} Tachwedd

Diolchodd y Cadeirydd i'r Is-gadeirydd am gadeirio'r cyfarfod yn ei lle.